# YMWELIADAU SAFLE

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mawrth, 2018

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd John Griffith, K P Hughes, Trefor Lloyd Hughes MBE, Eric Wyn Jones a Dafydd Roberts |
| **WRTH LAW :** | Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu (DPJ), Peiriannydd Rheoli Datblygu (JAPR). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Glyn Haynes, Robin Williams. |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Neb |

---

**1** **19C452F -CAIS LLAWN I GODI 15 O DAI DWY LOFFT A 10 O FFLATIAU UN LLOFFT AR DIR YN CANADA GARDENS, CAERGYBI**

Dangosodd Arweinydd y Tîm Rheoli Datblygu safle'r cais a'r defnydd sy'n cael ei wneud o'r tir o'i amgylch. Eglurwyd bod y cais cynllunio a gyflwynwyd yn wreiddiol yn un am 28 o unedau ond yn dilyn trafodaethau gyda swyddogion, roedd nifer yr unedau wedi cael ei gostwng i 25, sef 15 o dai dwy lofft a 10 o fflatiau un llofft. Hefyd, dywedodd bod y cais cynllunio wedi cael ei alw i mewn i'r pwyllgor cynllunio gan aelod lleol oherwydd pryderon trigolion lleol ynghylch gor-ddatblygiad a rheoli traffig.

Eglurodd y Peiriannydd Rheoli Datblygu y byddai'r Hawl Dramwy Gyhoeddus sy'n croesi'r safle yn cael ei diddymu ac y byddai defnyddwyr wedyn yn croesi'r pafin sy'n ffurfio rhan o'r briffordd a fabwysiadwyd drwy'r datblygiad.

Yna, edrychodd yr Aelodau ar safle'r cais o nifer o gyfeiriadau a'r fynedfa i Morrison Crescent o Ffordd Llundain. Gofynnodd yr Aelodau beth fyddai'n digwydd i'r garthffos sy'n croeso safle cais ac eglurwyd y byddai'n cael ei gwyro. Eglurwyd hefyd fod asesiad acwstig wedi cael ei gyflwyno gyda'r cais a oedd yn cynnwys mesurau dylunio yn yr anheddau arfaethedig i liniaru effeithiau sŵn o'r A55, y rheilffordd ac Iard HGV Gwynedd Shipping.